

Un Llais Cymru

One Voice Wales

# Gweithio gyda Phartneriaid

## Cip cyflym

**Gall cynghorau cymuned a thref wneud mwy o argraff ar fentrau costau byw trwy bartneru & chydweithio gydag eraill.**
**Trwy weithio gyda mudiadau cymunedol, busnesau, ac awdurdodau lleol mae cynghorau'n gallu rhannu adnoddau, cyfuno arbenigedd, a datblygu atebion wedi'u targedu sy'n cwrdd ag anghenion penodol eu cymunedau.**

## Pam ddylai cynghorau weithio gyda phartneriaid?

- Darparwch well gwasanaethau trwy gael gafael ar sgiliau, cyllid a chyfleusterau.
- Gweithiwch yn fwy Effeithlon trwy leihau dyblygu a gwneud y gorau o'r adnoddau sydd ar gael.
- Cyrraedd ymhellach – cysylltwch â mwy o bobl trwy rwydweithiau lleol eraill.
- Datgloi cyfleoedd ariannu – mae llawer o grantiau'n ffafrio ceisiadau partneriaeth.
- Cryfhau gwytnwch cymunedol – mae gweithio gydag eraill yn gallu gwella cydlyniad cymunedol, cyfeirio adnoddau at y bobl sydd eu hangen fwyaf a grymuso cymunedau i chwarae rhan weithredol yn siapio eu gwasanaethau lleol.

## Sut i Ddod o Hyd i Bartneriaid Addas:

**Rhestrwch Fudiadau Lleol** – dewch o hyd i grwpiau sy'n rhannu'r un diddordebau e.e. Banciau bwyd, grwpiau cymorth gydag ynni, busnesau lleol.
**Cysylltwch â'ch Cymuned** – holwch bobl leol am fudiadau maen nhw'n eu hadnabod yn barod ac yn ymddiried ynddynt.
**Ewch i Ddigwyddiadau & Chyfarfodydd Lleol** – rhwydweithiwch gyda darpar bartneriaid.

## Gyda phwy i weithio:

**Mudiadau Trydydd Sector** – elusennau, banciau bwyd, grwpiau cymunedol
**Awdurdodau Lleol** – gan fod pwysau ariannol ar wasanaethau, gall gwella'r perthnasoedd rhwng cynghorau lleol a phrif awdurdodau helpu dod o hyd i ffyrdd creadigol o sicrhau canlyniadau.

**Mae Cynghorau Gwirfoddol Sirol** (CVCs) wedi'u cysylltu'n dda ag ystod eang o grwpiau gwirfoddol a chymunedol lleol. Trwy weithio mewn partneriaeth â nhw, gall cynghorau tref a chymuned gyrraedd mwy o breswylwyr ac ymgysylltu â gwahanol grwpiau, gan gynnwys poblogaethau anodd eu cyrraedd.

**Gall busnesau lleol** gyfrannu trwy fentrau cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol, cynlluniau nawdd, neu gyfrannu nwyddau a gwasanaethau i gefnogi rhaglenni cymunedol.

**Grwpiau Ffydd –** yn aml iawn mae gan eglwysi, mosgiau, a sefydliadau crefyddol eraill leoedd cymunedol, gwirfoddolwyr ymroddedig, a rhwydweithiau sefydledig i helpu gyda mentrau lleol.

**Gwasanaethau Iechyd** – gall meddygfeydd teulu, elusennau iechyd meddwl, a mudiadau iechyd cymunedol gynnig ymyriadau iechyd, gweithdai, ac atgyfeiriadau ar gyfer pobl fregus.

**Sefydliadau Addysgol** – gall ysgolion a cholegau gynnig cyfleusterau, prosiectau dan arweiniad myfyrwyr, a chyfleoedd dysgu ar y cyd sydd o fudd i'r gymuned ehangach.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**
Mae'r Ddeddf yn annog cynghorau i gydweithio gyda chyrff cyhoeddus a mudiadau eraill, gan gynnwys awdurdodau lleol, byrddau iechyd, a mudiadau trydydd sector. Mae'r dull cydweithiol hwn yn helpu sicrhau bod gwasanaethau a mentrau yn gydnaws â'r nodau llesiant ehangach a bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon.

Mae Hazel Lloyd-Lubran, Prif Weithredydd Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Ceredigion, yn rhannu ei phrofiad am sut all eich Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol leol helpu cynghorau i gael gafael ar gefnogaeth & adnoddau



Dewch o hyd i'ch Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol leol yn Cymorth 3ydd Sector Cymru

## Deddfwriaeth & Grymoedd

O dan Adran 102 Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae gan gynghorau lleol hawl i sefydlu pwyllgorau ar gyfer tasgau penodol, a gall y pwyllgorau hyn gynnwys pobl nad ydynt yn gynghorwyr (aelodau cyfetholedig), ar yr amod fod y cyngor ei hun yn cytuno, mae'r Ddeddf yn cynnig hyblygrwydd i gynghorau lleol gyfethol pobl ar bwyllgorau.

Gall cynghorau cymuned a thref yng Nghymru fanteisio ar y broses hon er mwyn cryfhau eu pwyllgorau trwy gael gwybodaeth, profiad, ac amrywiaeth ychwanegol.

**Gall grymoedd a chyfiawnhadau wahaniaethu, a dylai cynghorau ystyried eu hamgylchiadau penodol nhw. Er mwyn cael cyngor ac arweiniad, efallai yr hoffai cynghorau gysylltu â'u Swyddog Datblygu Un Llais Cymru.**

admin@onevoicewales.wales

# Enghreifftiau o Waith Partneriaeth Da

Mae **Cyngor Tref Hwlffordd** yn partneru gyda mwy na 15 o fudiadau o'r trydydd sector a busnesau i ddarparu eu Prosiect Bwydo'r Gymuned. Mae'n darparu lle twym i bobl leol i ddod at ei gilydd, cael pryd o fwyd am ddim, manteisio ar wasanaethau cymorth eraill, a hyd yn oed dorri eu gwallt am ddim.

Cafwyd cymhorthdal ar gyfer y prydau gan eu partner arlwyo & fe gawsant eu hariannu gan y Cyngor. Darparwyd yr holl wasanaethau eraill yn rhad ac am ddim gan y Partner fudiad. Hyd yn hyn mae'r Cyngor wedi trefnu 6 digwyddiad am gost o £1000 i'r Cyngor.







Yn 2024, trefnodd **Cyngor Tref Blaenafon** 4 sesiwn nofio gymunedol mewn Partneriaeth gydag Ymddiriedolaeth Hamdden Torfaen; mae'r Cyngor yn darparu cludiant ar fysiau am ddim. Manteisiodd dros 200 o bobl leol ar y cynllun. Hefyd, gweithiodd y Cyngor mewn Partneriaeth i ddarparu:

- Sesiynau Ffitrwydd Mam & Merch
- Clwb Ffilm Cyfeillio
- Sesiynau Coginio i'r Teulu Cookstars
- Grŵp Cefnogaeth Cyn Filwyr
- Sinema Awyr Agored y Gwaith Haearn
- Diwrnod Treftadaeth Sain Ffagan

Gwyliwch ein Gweminar Gweithio mewn Partneriaeth Un Llais Cymru

Mae **Cyngor Tref Gorseinon** yn partneru gydag archfarchnadoedd a chigydd lleol i drefnu eu prosiect bwrdd rhannu bwyd sy'n darparu pecynnau bwyd i'r teulu adeg y Nadolig

Mae **Cyngor Tref Cwmaman** yn partneru gyda Chyngor Sir Caerfyrddin a chyrff cynghori yn y trydydd sector i gynnig cefnogaeth i bobl leol yn eu dyddiau Gwener y Gymuned

Cymorth gan Lywodraeth Cymru ar gyfer yr Argyfwng Costau Byw Hwb swyddogol Llywodraeth Cymru ar gyfer cefnogaeth gyda chostau byw, gan gynnwys cymorth ariannol, cymorth gydag ynni, a chynlluniau bwyd.

**Gallech greu partneriaeth gymunedol** i ddod ag unigolion & grwpiau sy'n rhannu diddordebau at ei gilydd o dan un cynllun gweithredu i redeg prosiectau i fynd i'r afael â materion penodol yn y gymuned

**Cymerwch ran mewn Rhwydweithiau Rhanbarthol:**

Ymunwch â fforymau neu gymdeithasau sy'n annog rhannu gwybodaeth a chydweithio.

# Gwybodaeth Ddefnyddiol:

Gall cynghorau cymuned a thref gofrestru gyda **Gwirfoddoli Cymru** i recriwtio gwirfoddolwyr ar gyfer mentrau gwahanol a dod o hyd i gyfleoedd i bartneru gyda mudiadau gwirfoddol lleol

Gwaith partneriaeth gyda'r sector gwirfoddol & chymunedol

**Eisiau Gwybod Mwy?**

**Er mwyn cael gwybod mwy am brosiect Argyfwng Costau Byw Un Llais Cymru cysylltwch â'r tîm yn:**

**One Voice Wales Website** CoLC@onevoicewales.wales https://bit.ly/3KYHftK